OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 812 (Cy.69)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*13 Mawrth 2007]*
Yn dod i rym	- -	*14 Mawrth 2007*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 1(5) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2007 ac maent yn dod i rym ar 14 Mawrth 2007.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999

2.—(1) Mae Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999(**3**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2,

(a) ym mharagraff (1), hepgorer y diffiniadau o "junior pupil" a "senior pupil" ac mewnosoder y diffiniadau newydd canlynol yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor —

> ""assistant head teacher" means a qualified teacher (within the meaning of section 132 of the Education Act 2002(**4**)) with leadership responsibilities across the whole school who is appointed to the post of assistant head teacher;";
>
> ""pupils of primary school age" means children who are under the age of 12;";
>
> ""pupils of secondary school age" means persons who are aged 12 or over;"; a

(b) ym mharagraff (2), o flaen "and 9", mewnosoder ", 5(1)".

(**1**) 1998 p.30; i gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1). Mae adran 1(5) a (7) ac Atodlen 1 yn effeithiol mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1999/1619, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/3185 (Cy.43) ac O.S. 2003/389 (Cy.51)

(**4**) 2002 p.32.